



Cardiff Students' Union
Undeb Myfyrwyr Caerdydd

Rheoliadau Etholiadau'r Hydref UMPC

Nodwch: Mae Ymgeiswyr yn rhwym wrth y rheoliadau hyn o'r adeg y caiff yr hysbysiad etholiad sy'n cadarnhau'r rhestr o ymgeiswyr ei wneud yn fyw ar wefan Undeb y Myfyrwyr; mae hyn yn dilyn y sesiwn briffio cyntaf i ymgeiswyr. Er mwyn i enwebiadau Ymgeiswyr gael eu cymeradwyo, rhaid iddynt sicrhau bod eu henwebiad yn cydymffurfio â'r canllawiau a amlinellir yn y rheoliadau hyn. Pan fydd y rheoliadau hyn yn cyfeirio at 'ymgeiswyr', mae hynny hefyd yn cyfeirio at ymgyrchwyr/timau ymgyrchu.

Enwebiadau

Rhaid i enwebiadau gael eu cyflwyno drwy ddefnyddio'r arolwg enwebiadau etholiadau Typeform sydd ar gael drwy'r Hysbysiad Etholiadau ac ar cardiffstudents.com cyn yr amser cau ar gyfer enwebiadau a gadarnheir yn yr Hysbysiad Etholiadau. Dylai unrhyw fyfyrwr sy'n cael trafferth gyda'r broses enwebu adrodd am hynny cyn yr amser cau ar gyfer enwebiadau drwy e-bostio'r tîm etholiadau yn elections@cardiff.ac.uk. Ni ellir derbyn unrhyw enwebiadau ar ôl yr amser cau lle nad oes unrhyw broblem wedi'i hadrodd cyn hynny.

Enw ar y Papur Pleidleisio a'r Hysbysiad Etholiad

Rhaid i ymgeiswyr ddarparu enw i'w roi ar y papur pleidleisio a'r hysbysiad etholiad wrth gyflwyno eu henwebiad. Dylai'r enw hwn gyfateb naill ai i'w henw cofrestredig ar gronfa ddata'r Brifysgol neu'n enw y maent yn ei ddefnyddio'n gyffredin neu a ddefnyddir i gyfeirio atynt. Mae hynny er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn gwbl ymwybodol o'r ymgeiswyr y maent yn pleidleisio drostynt ac a allai gael eu hethol yn gynrychiolwyr iddynt.

Ni fydd enwau nad ydynt yn cyfateb i'r disgrifiad hwn a/neu sy'n cynnwys ymadroddion, enwau neu eiriau sy'n cael eu cysylltu'n fwy cyffredin ag ymadroddion neu frandiau yn cael eu derbyn. Cyfrifoldeb ymgeiswyr ydy sicrhau eu bod yn cyflwyno enwebiad o fewn y canllawiau a ddarperir, ac mae risg iddynt na fydd eu henwebiad yn cael ei dderbyn os byddant yn methu â chydymffurfio â chyfarwyddiadau'r tîm etholiadau. Y terfyn amser ar gyfer darparu enw addas i ymddangos ar y papur pleidleisio a'r hysbysiad etholiad ydy'r un amser a dyddiad â'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno enwebiad.

Ffoto

Mae'r dewis gan ymgeiswyr i ddarparu ffoto i'w ddangos ar y papur pleidleisio ar-lein ochr yn ochr â'u henwebiadau. Nid oes rhaid i ymgeiswyr ddarparu ffoto, ond rhaid i unrhyw ffoto a ddarperir ddilyn y canllawiau.

Dylai'r ffoto fod yn llun cywir o'r ymgeisydd a dylai gynnwys wyneb yr ymgeisydd. Ni ddylai unrhyw



The heart of Cardiff student life
Calon bywyd myfyrwyr Caerdydd

bobl eraill ymddangos o fewn ffocws y ffoto. Cyfrifoldeb ymgeiswyr ydy sicrhau eu bod yn cyflwyno ffoto o fewn y canllawiau a ddarperir, ac mae risg iddynt na fydd eu ffoto yn cael ei dderbyn os byddant yn methu â chydymffurfio â chyfarwyddiadau'r tim etholiadau.

Manifffesto

Mae gan ymgeiswyr un manifffesto yn ystod cyfnod yr etholiad. Manifffesto testun plaen ydy hwn, sy'n cael ei gyflwyno drwy ddefnyddio'r Typeform enwebiadau neu ei e-bostio i elections@cardiff.ac.uk cyn terfyn amser y manifffestos.. Mae cyfyngiad o 1500 o nodau yn y manifffesto hwn.

Poster

Gall ymgeiswyr hefyd gyflwyno un poster A4 lliw. Poster i gefnogi ymgyrch etholiadol yr ymgeiswyr yw hwn a bydd pob ymgeisydd yn derbyn 20 copi A4 un ochr o'u poster. Ni fydd y poster yn cael ei rannu gan Undeb y Myfyrwyr ar unrhyw un o lwyfannau Undeb y Myfyrwyr.

Mae'r terfynau amser ar gyfer cyflwyno manifffestos a therfynau amser allweddol eraill isod:

	Terfyn Amser	Proses Gyflwyno
Cyflwyno Enwebiad	Dydd Iau 5 ^{ed} Hydref, 4pm	Cyflwyno trwy'r typeform etholiadau .
Cyflwyno Ffoto	Dydd Mawrth 10 ^{ed} Hydref, 4pm	Cyflwyno trwy'r typeform etholiadau neu e-bostio i elections@cardiff.ac.uk .
Manifffesto Testun Plaen	Dydd Mawrth 10 ^{ed} Hydref, 4pm	Cyflwyno trwy'r typeform etholiadau neu e-bostio i elections@cardiff.ac.uk . Mae angen cyflwyno naill ai yn Saesneg neu yn Gymraeg.
Manifffesto Poster	Dydd Mercher 11 ^{eg} Hydref, 4pm	Cyflwyno trwy'r typeform etholiadau neu e-bostio i elections@cardiff.ac.uk .

Ymgyrchu ac Ymddygiad

Mae etholiadau Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn cael eu rholi gan 4 egwyddor craidd sy'n rheoleiddio ymgyrchu ac ymddygiad ymgeiswyr drwy'r holl etholiadau. Rydym eisiau i chi fel ymgeiswyr fod yn rhydd i ymgyrchu mewn ffyrdd clyfar a chreadigol heb boeni am restr hir o reolau. Yn hytrach, dylai'r 4 egwyddor lywio penderfyniadau ymgeiswyr ynglŷn â'u hymgyrch.

Wedi dweud hynny, petai ymgeiswyr yn gweithredu'n groes i ysbryd yr egwyddorion hyn, gallant dderbyn cosbau gan y tim etholiadau. Gall y rhain amrywio o gyfyngu ar wahanol fathau o gyhoeddusrwydd i gael eu diarddel o'r etholiad mewn achosion eithafol.



Yr Egwyddorion

- 1) Rhaid i fyfyrwyr fod yn rhydd i fwrw eu pleidlais heb ddylanwad neu bwysau amhriodol.
- 2) Rhaid i ymgeiswyr gadw at y gyfraith a pholisïau'r undeb a'r brifysgol.
- 3) Dylai ymgeiswyr ganolbwyntio ar eu hymgyrch eu hunain, gan osgoi ymyrryd ag ymgyrchu ymgeiswyr eraill.
- 4) Dylid cyfrif am eitemau a gynhyrchir neu a ddefnyddir yn bennaf ar gyfer ymgyrch ymgeisydd o fewn y lwfans a ganiateir yn unol â rheoliadau ariannol etholiadau'r undeb.

Sut mae'n gweithio:

I roi syniad i chi o sut mae hyn yn gweithio mae enghreifftiau isod o'r ffordd y caiff yr egwyddorion eu cymhwyso:

- 1) Rhaid i fyfyrwyr fod yn rhydd i fwrw eu pleidlais heb ddylanwad neu bwysau amhriodol.

Ni all ymgeiswyr sefyll yn gwylio myfyrwyr pan fyddant yn pleidleisio oherwydd fe fyddai'r myfyriwr dan bwysau i bleidleisio dros yr ymgeiswyr penodol dan sylw. Dylai ymgeiswyr gofio camu i ffwrdd oddi wrth myfyriwr unwaith y byddant wedi dechrau'r broses bleidleisio. Er y caniateir rhoi taflenni a losin er mwyn cael myfyrwyr i'ch cofio chi a gwranddo amoch chi, ni fyddai hawl gennych i gynnig rhoi gwobr i fyfyrwyr (losin neu rywbeth arall) y byddant yn ei chael ar ôl iddyn nhw bleidleisio drosoch chi, oherwydd y byddai hynny'n cael ei ystyried yn ddylanwadu amhriodol.

- 2) Rhaid i ymgeiswyr gadw at y gyfraith a pholisïau'r undeb a'r brifysgol.

Mae hyn yn golygu bod rhaid i chi fel ymgeisydd a'ch tîm ymgyrchu, fel bob amser, gadw at y gyfraith, rheoliadau'r Brifysgol (gan gynnwys eu cod ymddygiad, rheoliadau iechyd a diogelwch, gweithdrefnau cyfle cyfartal, cod aflonyddu, difrod i eiddo'r brifysgol, a defnydd o e-bost ac ati) a pholisïau'r Undeb (gan gynnwys ein polisi Dim Goddefgarch, Rheoliadau Etholiadau ac ati). Gall torri'r polisïau hyn arwain at gamau disgyblu a gallai hynny wedyn effeithio ar eich statws fel myfyriwr a'ch aelodaeth o'r Undeb, yn ogystal â chael effaith ar eich statws fel ymgeisydd etholiad.

- 3) Dylai ymgeiswyr ganolbwyntio ar eu hymgyrch eu hunain, gan osgoi ymyrryd ag ymgyrchu ymgeiswyr eraill.

Golyga hyn bod disgwyl i ymgeiswyr ganolbwyntio ar eu hymgyrch eu hunain a pheidio â gwneud unrhyw beth a allai ymyrryd ag ymgyrchu ymgeiswyr eraill. Er enghraifft: mae difetha cyhoeddusrwydd ymgeiswyr eraill a heclo ymgeiswyr eraill ymhlith y gweithredoedd fyddai'n cael eu hystyried yn groes i'r egwyddor hwn. Fodd bynnag, mae ymgeiswyr yn dal yn rhydd i drafod rhinweddau maniffesto neu safbwynt ymgeisydd arall ac ni fyddai trafodaeth o'r fath yn cael ei hystyried yn groes i'r egwyddor hwn. Ymgyrchu o fen y lwfans a ganiateir.



- 4) Dylid cyfrif am eitemau a gynhyrchir neu a ddefnyddir yn bennaf ar gyfer ymgyrch ymgeiswyr o fewn y lwfans a ganiateir yn unol â rheoliadau ariannol etholiadau'r undeb (gweler isod).

Rheoliadau Ariannol Etholiadau

Ni ddylai arian fod yn rhwystr i unrhyw fyfyrwr sy'n dymuno sefyll mewn etholiadau. Dyna pam mae'r undeb yn darparu lwfansau ymgyrchu i bob ymgeisydd ac hefyd yn cyfyngu gwariant ymgeisydd i'r swm a osodir.

Mae gan ymgeiswyr sy'n sefyll yn yr etholiad hwn lwfans o £0.00.

- 1) Caiff gwariant ymgyrchu ei ddiffinio fel 'unrhyw wariant sy'n cael ei wneud gyda'r diben o hyrwyddo ymgyrch etholiadol ymgeisydd'. Yr unig eithriadau ydy gwisgoedd/dillad a deunyddiau traul (Gweler y canllaw isod).
- 2) Os ydynt yn ansicr a ddylai eitem gael ei chyfrif fel gwariant ai peidio, cyfrifoldeb yr ymgeisydd ydy sicrhau eglurder gan y tîm etholiadau cyn defnyddio unrhyw ddeunyddiau. Dylid sicrhau eglurder yn ysgrifenedig drwy e-bost.

Deunyddiau traul ac eitemau nad ydynt yn benodol ar gyfer yr ymgyrch (ni ddylid rhoi cyfrif amdanynt.)

Sail Resymegol: Mae'r rhain oll yn eitemau y gallwn ddigwyl yn rhesymol y byddai ymgeiswyr yn berchen arnynt cyn eu penderfyniad i sefyll yn etholiadau'r undeb. Mae hyn yn golygu nad eu prif ddiben ydy hyrwyddo ymgyrchu ac felly does dim rhaid rhoi cyfrif amdanynt.

Paent, peniau a deunyddiau crefft

Hen gardfwrdd, cynfasau, defnydd neu ddeunyddiau tebyg

Selotêp, piniau, tac glas, glud, llinyn neu ddeunyddiau gosod eraill

Anifeiliaid anwes

Offerynnau cerdd

Costau car a chluudiant



Gwisgoedd
Dillad (ac eithrio dillad a gaiff eu cynhyrchu'n broffesiynol gyda'r prif ddiben o hyrwyddo eich ethol).

Ymddygiad tramgwyddus

O gael adroddiad ynglŷn ag ymddygiad tramgwyddus, cyflwynir adroddiad am ymgeiswyr i'r tîm etholiadau a byddant hwy yn cynnal ymchwiliad ac yn cyflwyno cosbau os canfyddir bod yr ymgeisydd wedi torri'r rheolau. Mae gan y Swyddog Canlyniadau neu'r Dirprwy Swyddog Canlyniadau yr hawl i gosbi a hyd yn oed i dynnu ymgeisydd allan o'r broses etholiadol os ydynt yn teimlo bod hynny'n briodol.

Canllawiau Ychwanegol

O dro i dro, gall y tîm etholiadau, gan gynnwys y Swyddog Canlyniadau neu'r Dirprwy Swyddog Canlyniadau, gyhoeddi canllawiau etholiadau pellach. Gall y canllawiau hyn ywneud ag unrhyw agweddau ar ymddygiad etholiadol a bydd modd eu gorfodi i'r un graddau â'r rheoliadau hyn. Bydd ymgeiswyr yn cael eu hysbysu am unrhyw ganllawiau o'r fath drwy e-bost.

Sut i Wneud Cwyn

Rhaid i bob cwyn cael ei derbyn o fewn 24 awr i'r digwyddiad a rhaid i'r gŵyn gyrraedd y tîm democratiaeth yn ysgrifenedig erbyn cau'r pleidleisio.

Gwneir cwynion drwy e-bostio elections@cardiff.ac.uk a rhaid iddynt gynnwys y wybodaeth ganlynol:


- Manylion y digwyddiad (pryd a ble digwyddodd ac a oedd unrhyw dystion)
- Tystiolaeth
- Pa Reoliad sydd wedi'i dorri
- Beth rydych chi'n gofyn i ni ei wneud am y peth

Bydd y Swyddog Canlyniadau Etholiadau yn ystyried ac yn gwneud penderfyniad ynglŷn â'r holl gwynion cyn dechrau'r Cyfrif.

Asesu Cwynion

Mae'r tîm etholiadau yn asesu pob cwyn ar sail unigol yn ôl fformiwla sydd wedi'i safoni mewn rhai ffyrdd. Drwy ofyn cyfres o gwestiynau, mae'r tîm etholiadau yn sicrhau y caiff yr holl ymgeiswyr eu trin yn gyfartal.





Hygyrchedd

Nod y tîm etholiadau ydy gwneud y broses etholiadau mor hygyrch â phosib. Os oes unrhyw anghenion hygyrchedd yr hoffech wneud y tîm etholiadau yn ymwybodol ohonynt, neu y byddai angen caniatáu eithriadau ar eu cyfer, e-bostiwch y tîm etholiadau yn elections@cardiff.ac.uk ar y cyfle cynharaf posib.

Dyddiadau Allweddol

Digwyddiad Allweddol	Dyddiad
Enwebiadau'n Agor	Dydd Llun 4 ^{dd} Medi, 10am
Enwebiadau'n Cau	Dydd Iau 5 ^{ed} Hydref, 4pm
Briffio Ymgeiswyr	I'w gadarnhau
Dyddiad Cau Ffoto Ymgeiswyr	Dydd Mawrth 10 ^{fed} Hydref, 4pm
Dyddiad Cau Maniffesto Testun Plaen	Dydd Mawrth 10 ^{fed} Hydref, 4pm
Dyddiad Cau Posteri i'w Hargraffu	Dydd Mercher 11 ^{eg} Hydref, 4pm
Pleidleisio'n Agor	Dydd Llun 16 ^{eg} Medi, 10am
Pleidleisio'n Cau	Dydd Iau 19 ^{eg} Hydref, 4pm
Canlyniadau	Dydd Gwener 20 ^{fed} Hydref, 4pm



The heart of Cardiff student life
Calon bywyd myfyrwyr Caerdydd